*Atodiad A*

# Cyd-arolygiad anableddau dysgu AGGCC/AGIC:Cynllun Gwella

## Ardal: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Torfaen

## Dyddiad yr arolygiad: 27 - 29 Ionawr a 2 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn Allweddol 1** | | | |
| 4 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynllunio ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu. Yn benodol, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn casglu data a gwybodaeth berthnasol, gyda'r nod o gynllunio darpariaeth gwasanaethau sy'n gallu dangos yn glir sut mae'n diwallu anghenion y boblogaeth bresennol o bobl ag anabledd dysgu. | Roedd y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu wedi'i lywio gan ystod o ddata demograffig a dadansoddiad o anghenion. Mae gan y Gyfarwyddiaeth fynediad at ystod o ddata a gwybodaeth berthnasol o nifer o ffynonellau gan gynnwys y System Wybodaeth Glinigol Ranbarthol (ePEX), cronfa ddata Gofal Iechyd parhaus y GIG (gan gynnwys gwybodaeth am ddadansoddi tueddiadau), cofrestrau pontio yn seiliedig ar fwrdeistrefi yn ogystal â chronfeydd data cenedlaethol megis | Rheolwr Gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth, Cyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu | Yn parhau |

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Daffodilcymru. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn awyddus i glywed barn y Fforwm Cynllunio'r Strategaeth ar gyfer Anableddau Dysgu sy'n ymwneud â'u blaenoriaethau ar gyfer diwallu anghenion y boblogaeth ag anableddau dysgu. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gasglu gwybodaeth a data sy'n berthnasol i lywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gwasanaeth a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r Fforwm Cynllunio Strategaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi ymgysylltu'n llwyr â'r gwaith o ddatblygu System Wybodaeth Cymru Gyfan (WCCIS) i sicrhau bod ei gweithrediad yn bodloni gofynion casglu data'r Gyfarwyddiaeth.<br><br>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi bod yn treialu'r Fframwaith Anghydraddoldeb Iechyd ac hyd yn hyn mae'r offeryn wedi'i fabwysiadu gan 5 tîm ar draws y Gyfarwyddiaeth yn y gobaith y bydd yn weithredol o fewn pobl tîm perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth erbyn mis Medi 2016.<br><br>Mae'r Fforwm Cynllunio Strategaeth wedi ymgymryd â darn o waith yn ddiweddar a oedd yn edrych ar y meysydd yn y Strategaeth Anableddau Dysgu yr oedd angen eu datblygu ymhellach. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio cam nesaf y Strategaeth | | |

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Anableddau Dysgu pan fydd y strategaeth bresennol yn gorffen yn 2017. | | |
| | **Cwestiwn Allweddol 2** | | | |
| 6 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses glir ar waith i dimau cymunedol adrodd pryderon diogelu drwy'r bwrdd iechyd, fel y gellir monitro pryderon a themâu. | Mae data sy'n ymddangos o bob atgyfeiriad a wnaed i'r Awdurdod Lleol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi drwy Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB). Mae hyn yn ymwneud â nifer yr atgyfeiriadau; y ffynhonnell; categorïau o bryder; a nifer yr atgyfeiriadau sy'n arwain at gyfarfod strategaeth. Caiff y data hwn ei adrodd i Bwyllgor Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd sy'n cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y Bwrdd. Mae Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu cymorth a chyngor pan fydd angen. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd | Yn parhau (drwy gyfarfodydd chwarterol) |

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Pan fo'n briodol, dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod pobl yn cael cynnig cyfarpar sy'n diwallu eu hanghenion asesedig mewn da bryd. | Lle y caiff cyfarpar ei asesu fel cyfarpar sy'n diwallu angen iechyd ond nad yw defnyddwyr y gwasanaeth yn bodloni meini prawf Gofal Iechyd Parhaus GIG, mae'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu wedi penderfynu cyllido'r fath gyfarpar. Bydd y bwrdd iechyd yn ceisio cytuno ar brotocol ffurfiol ynghylch pryniannau o'r fath. | Rheolwr Cyffredinol, Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Erbyn diwedd mis Mehefin 2016 |
| | | Cydnabyddir y bydd anghydfodau yn aml ar lefel leol yn ymwneud â chyllido'r fath gyfarpar, a all olygu bod oedi cyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth ei dderbyn. Bydd y mater hwn felly'n cael ei godi gan y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn y gobaith o sicrhau bod eglurder o ran y cyfrifoldeb i ddarparu a chyllido'r fath gyfarpar er mwyn sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ddarparu mewn pryd. Bydd hynny'n cefnogi ac yn llywio'r protocol. | Rheolwr Cyffredinol, Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mai 2016 |
| | **Cwestiwn Allweddol 3** | | | |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i nodi ffyrdd gwell o weithio, er mwyn gwella'r broses Gofal Iechyd Parhaus (CHC) lle bo modd. | Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â'i gydweithwyr o'r Awdurdod Lleol i ddatblygu Gweithdrefn Anghydfodau yn y gobaith o wella amseroldeb y broses o wneud | Rheolwr Cyffredinol, Adran Iechyd Meddwl ac | Erbyn diwedd mis Mehefin 2016 |

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | penderfyniadau.<br><br>Bydd y mater yn cael ei godi gan y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn y gobaith o nodi dull partneriaeth i wella'r broses Gofal Iechyd Parhaus (CHC) ymhellach lle bo modd. | Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Cyffredinol, Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mai 2016 |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio ar fyrder â'r awdurdod lleol i ddod o hyd i ddatrysiad priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl sy'n byw mewn darpariaeth breswyl y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. | Yn sgil cwblhau'r asesiadau amlddisgyblaethol / amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bydd Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Tîm y Prosiect ac amlinelliad o'r prosiect ar gyfer y camau nesaf yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i'w cymeradwyo i barhau i ddatblygu model integredig i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Yna, bydd Tîm y Prosiect yn mynd ati i gyflenwi'r datrysiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Rheolwr Cyffredinol, Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mai 2016 |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu y tu hwnt i ddiwedd y strategaeth bresennol yn 2017. | Bydd y Grŵp Cyflawni Anableddau Dysgu yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion presennol y Strategaeth er mwyn i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ei ystyried. Bydd y Grŵp Cyflawni yn cynnwys adborth o'r Fforwm | Cyfarwyddwr Clinigol, Cyfarwyddwr Anableddau Dysgu | Erbyn mis Medi 2016 |

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynllunio Strategaeth yn y gwerthusiad. Yna, bydd y Bwrdd Partneriaeth yn ystyried datblygu cynllun strategol i bobl sydd ag anableddau dysgu y tu hwnt i 2017. | | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):** **Julie Hall**

**Teitl:** **Rheolwr Gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth, Y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu**

**Dyddiad:** **15 Mawrth 2016**

© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7010-1